

Tynged Bethania, Pistyll, a sawl Bethania arall?

Golygfa gyfarwydd ar hyd a lled ein gwlad bellach yw gweld capeli sydd wedi eu cau a'u trawsnewid i bwrpas arall. Gwelir rhai wedi eu gadael yn wag, a golwg druenus arnynt, tra mae eraill wedi eu troi'n gartrefi moethus neu'n unedau ar gyfer gweithdy neu siop.

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd llu o achosion yn dirwyn i ben, a thoreth o gapeli gwag yn cael eu gwerthu gan yr holl enwadau traddodiadol yng Nghymru. Yn ddiweddar, bu hanes Bethania, Pistyll, yn Mhenrhyn Llŷn, yn y newyddion, ac yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn edrych ar yr hanes lleol hwnnw yn ogystal â sefyllfa capeli cyfagos. Mae hefyd yn agor y drafodaeth yn ehangach wrth ystyried pa ddefnydd sy'n cael ei wneud ac y gellid ei wneud o gapeli ac eglwysi gwag.

Gwelsom benawdau yn y newyddion yn ddiweddar yn dweud bod ymgyrchwyr lleol wedi mynd ati i arbed capel hanesyddol rhag cael ei werthu o bosib i brynwyr 'barus' a allai droi'r adeilad hynafol yn gartref gwyliau moethus efo pedair ystafell wely. Mae Capel Bethania, Pistyll, sef y capel lle maged Tom Nefyn Williams, yn mynd ar werth am yr eildro ers iddo gael ei werthu gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru yn 2016.

Adeiladwyd Capel Bethania, Pistyll, yn 1875 gan drigolion yr ardal, a bu'n addoldy am dros 140 o flynyddoedd. Daeth y capel yn adnabyddus oherwydd ei gysylltiad â'r Parchedig Tom Nefyn Williams, a gafodd ei fagu yno. Arferid cynnal Cymanfa Ganu flynyddol ym Methania tan tua 20 mlynedd yn ôl, a chofia Gwilym Griffith, Llwyndyrus, a fu'n arwain y Gymanfa honno am dros 25 mlynedd, fely byddai'r capel bob amser yn orlawn, ac unawdwyr fel Leah Owen yn dod ymlaen i gyflwyno eitemau. Ond, wrth i'r gynulleidfa edwino, caewyd y capel olaf ym Mhystyll, a gwerthwyd yr adeilad gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru bryd hynny.

Pan werthwyd y capel yn 2016, cafodd y gymuned ym Mhystyll ar ddeall mai'r bwriad oedd ei droi i fod yn gartref parhaol i deulu o'r ardal. Roedd hyn yn dderbyniol gan y gymuned, ac ni

fu unrhyw wrthwynebiad yn lleol. Fodd bynnag, nid dyna a ddigwyddodd. Erbyn hyn, mae'r hawl cynllunio wedi ei newid i fod yn fwthyn gwyliau masnachol, ac o'r herwydd ni fyddai hawl gan deulu lleol i fyw'n barhaol ynddo. Mae Dafydd Hardy ac Auction House UK yn hysbysebu'r eiddo yn Pistyll fel 'cartref gwyliau moethus gyda hawl cynllunio ar gyfer annedd 4 ystafell wely' mewn hysbyseb sy'n tynnu sylw at ei safle glan môr. Eisoes



gwelwyd datblygiad tai gwyliau enfawr gerllaw, ym Mhlas Pistyll – datblygiad a gafodd ei ganiatáu er gwaethaf gwrthwynebiad chwyrn y gymuned leol i'w atal.

Roedd disgwyl i Gapel Bethania gael ei werthu mewn arwerthiant ar 24 Mawrth, ond bellach gohiriwyd hynny tan fis Mai. Mae ymgyrchwyr wedi sefydlu grŵp Facebook a thudalen codi arian GoFundMe, ac erbyn diwedd Mawrth roedd dros £20,000 wedi ei godi, allan o darged £120,000. Meddai Osian Jones, trefnydd yr ymgyrch:

Yn dilyn y newyddion diweddar bod hen gapel Bethania, sef capel y Cristion a'r gwerinwr Tom Nefyn, yn cael ei werthu mewn ocsiwn gyhoeddus, gyda chaniatâd cynllunio i droi'r hen gapel yn dŷ haf, rydym yn grediniol bod raid achub y capel pwysig hwn i berchnogaeth y gymuned leol, er mwyn diogelu ein treftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol. Rydym yn grediniol bod modd cadw'r adeilad pwysig hwn yn nwylo'r genedl, ac y byddai gweld trosi hen gapel Tom Nefyn, un a weithiodd ar hyd ei oes yn erbyn gormes, ac o blaid creu cartrefi diogel i weithwyr Cymru, yn sarhad ar ein gwlad.

Mae ardal Pistyll a gogledd-orllewin Cymru'n ehangach yn wynebu dyfodol ansicr iawn. Yno, mae trigolion lleol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai er mwyn diwallu anghenion trachwantus y bobol hynny sydd am brynu tai ac eiddo fel tai haf i'w defnyddio am ychydig wythnosau'r flwyddyn. Mae ymgeisydd Seneddol Plaid Cymru Dwyfor Meirionnydd, Mabon ap Gwynfor, hefyd wedi rhoi ei gefnogaeth i'r ymgyrch. Meddai:

Mae cyflwr Bethania, hen gapel Tom Nefyn, wedi achosi cryn gyffro yn yr ardal. Wrth inni weld ein cymunedau'n dioddef oherwydd nifer yr ail gartrefi a thai gwyliau, mae 'na beryg o weld adeilad hanesyddol arall yn cael ei werthu er mwyn

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Tynged Bethania, Pistyll, a sawl Bethania arall? *(parhad o dudalen 1)*

datblygu cartref gwyliau arall. Felly, mae angen gweithredu ar frys i gyfyngu ar nifer y cartrefi gwyliau mewn ardaloedd lle mae eisoes ormodedd o dai. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar hyn fel mater o frys. Mae ymgyrch ar y gweill gan grŵp cymunedol lleol i brynu'r eiddo, a rhaid rhoi digon o amser iddynt drefnu eu hymgyrch. Hwn oedd y capel olaf ym mhentref Pistyll, gan i gapel yr Annibynwyr gau yno ers tro byd.

Pentref cyfagos yw Llithfaen, sydd ddim ond rhyw filltir o'r Pistyll, lle mae criw o bobl leol ynghanol brwydr gyffelyb. Mae achos y Presbyteriaid yno wedi rhoi ar les dymor hir adeilad y capel ei hun, sy'n gapel anferthol, i fenter gymunedol leol Hafod Ceiri. Gobaith y criw hwn yw troi'r capel yn ganolfan ddiwylliannol, a fydd yn cynnwys caffi ac amgueddfa. Serch hynny, mae'r achos ei hun yn parhau yn y pentref, a'r gwasanaethau erbyn hyn yn cael eu cynnal drws nesaf, yn y festri, a honno'n festri sylweddol iawn o ran maint.

Meddai Pryderi Llwyd Jones, un o ymddiriedolwyr Hafod Ceiri,

Yn Llithfaen (nid oedd yr eglwys wedi cau, er yn wan iawn), oherwydd dyfalbarhad grŵp bychan, lleol (oedd yn cynnwys aelod o'r capel) a thrafodaeth faith â'r enwad oedd yn berchen yr adeilad, trosglwyddwyd les y capel i'r grŵp oedd â chynlluniau penodol ar gyfer y capel a pharhad lle i addoli. Rhaid i'r ymgyrch ynglŷn â gwerthu capeli ac eglwysi ar y farchnad rydd ddechrau heddiw ar gyfer y dyfodol gan mai ymdrech frys neu ymdrech sy'n 'rhy hwyr' sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Ond mae llwyddiant rhai prosiectau yn ddigon o brawf ei fod yn bosibl gyda dyfalbarhad a gwledigaeth o gymuned ac o etifeddiaeth.

Tan yn ddiweddar roedd capel gan y Bedyddwyr yn y pentref hefyd, sef Tabor, ond bellach mae'r capel hwnnw wedi ei werthu i bobl leol, sydd wedi ei droi'n gartref hyfryd, gan gadw rhan o'r capel yn ei gymeriad gwreiddiol, a rhoi gofod i rywun gyfarfod yno petai galw. O ddilyn y llwybr troellog o Lithfaen tuag at y môr, down at hen bentref Nant Gwrtheyrn. Yno, caewyd capel Seilo flynyddoedd maith yn ôl pan adawyd y pentref yn adfail. Ond, wrth agor canolfan iaith yno, adferwyd adeilad y capel i'w holl ogoniant, a bellach gweinyddir degau o briodasau yno bob blwyddyn. Dros y blynyddoedd diwethaf defnyddiwyd y cyfleusterau hynny gan Undeb yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr ar gyfer cynnal eu cyfarfodydd blynyddol.



Seilo, Nant Gwrtheyrn

Yna, yn Llanaelhaearn, sydd eto ddim ond rhyw filltir o Lithfaen, cafodd capel Saron ei droi'n unedau preswyl ar gyfer pobl leol, a chapel y Babell ei brynu gan Antur Aelhaearn, gyda'r gobaith o'i droi'n gampfa yn y dyfodol agos. Mae'r achos hwnnw'n parhau, a'r festri wedi ei throi'n ganolfan ar gyfer y gymuned, er nad oes gwasanaethau rheolaidd yn cael eu cynnal yno. Tu allan i'r pentref safai capel Cwm Coryn, ac mae'r adeilad hwn bellach wedi ei droi'n gartref.

Pentref cyfagos arall yw pentref enwog Trefor, lle ffilmiwyd y gyfres deledu *Minafon* ers talwm. Yno, gwerthwyd capel a festri Gosen, a'u troi'n gartref ac uned wyliau, a gwerthwyd un capel arall, sydd bellach yn gartref parhaol i Fand Seindorf Trefor. Gwerthwyd capel Bethania ugain mlynedd yn ôl, gyda'r prynwr wedi ei adael heb ei gyffwrdd, tra mae'r achos ym Maesneuadd wedi cau'r capel i ffwrdd, ond wedi troi'r festri'n lle cynnes, cartrefol a chyfoes ar gyfer addoli a chynnal pob math o weithgareddau.

Wrth gyfeirio at yr achosion uchod, medrwn gyfri bod 12 'capel' wedi sefyll ar un adeg yn y cymunedau hyn – ardal o tua phum milltir ar arfordir gogleddol Llŷn. Deuddeg capel anghydfurfiol a fu'n fwrllwm o weithgaredd crefyddol a chymdeithasol am ddegawdau, ond erbyn hyn nid oes yr un o'r adeiladau hyn yn addoldy.

Bellach, dwy festri sydd mewn defnydd rheolaidd, a diolchwn am y manau tystiolaeth hynny, a da yw nodi bod yna ysgol Sul yn y ddwy eglwys. Stori un cylch daearyddol pum milltir yw hon. Gellid mynd ar daith ehangach, ar hyd a lled ein gwlad, a down o hyd i'r un sefyllfa:

cymunedau'n ceisio penderfynu beth i'w wneud efo capel sy'n aml iawn wedi goroesi ei ddefnyddioldeb.

Mewn sawl man fe aeth yr adeilad yn faich ar yr achos, ac aelodau oedrannus a bychan o ran eu nifer yn gorfod poeni am drwsio'r to a delio â thamprwydd yn hytrach na mwynhau perthyn i eglwys fyrlymus. Mae llawer yn gofidio, petaen nhw'n cau, y byddai beirniadaeth arnynt gan eraill yn lleol am fetu cadw'r capel ar agor; yn aml, y rhai mwyaf llafar eu protest pan fo capel yn cau yw'r rhai na wnaeth erioed ei fynychu. Caewyd Bethania, Pistyll, oherwydd mai prin oedd y bobl leol a fynychai'r capel i addoli, a dyna'r sefyllfa a welir mewn cymaint o lefydd eraill.

Cymhlethdod ychwanegol i lawer yw canfod bod yr adeilad wedi ei gofrestru gan Cadw, ac felly mae ei gadw ar agor neu ei gau a'i werthu ill dau'n cynnwys heriau a phroblemau. Mewn cyfnod o bandemig bu i lawer o achosion gau eu drysau, heb geisio gwneud dim mewn modd arall chwaith. Gall fynd yn flwyddyn arall cyn y daw pethau 'nôl i ryw fath o drefn sefydlog arferol, ac mae llawer yn darogan yn barod na fydd llawer o'r capeli bychain hyn yn ailagor eu drysau eto.

Beth felly fydd tynged Bethania, a sawl Bethania arall? Oes angen poeni am yr adeilad o frics a mortar, ac onid y bobl sy'n cyfarfod yno yw'r wir eglwys? Neu a oes angen i ni godi ein lleisiau er mwyn ceisio diogelu ein treftadaeth, ac ymladd i gadw ac addasu'r adeiladau hyn? Dyma drafodaeth a fydd yn cael ei chynnal mewn sawl 'Bethania' dros y blynyddoedd nesaf hyn.

Diwedd a Dechrau Newydd yn Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain

Ar 1 Ebrill eleni daeth Gofalaeth Gororau'r Gogledd i fodolaeth. Mae'n cynnwys eglwysy Dosbarth Lerpwl (Bethel, Heathfield Road; Waterloo a Seion, Penbedw) ac eglwysy Dosbarth Manceinion (Altrincham a Noddfa, Oaker Avenue), dan fugeiliaeth y Parch Robert Parry. Oherwydd y cyfyngiadau ar gyfarfodydd, mae'r broses o gael barn yr aelodau am alw gweinidog wedi bod yn wahanol i'r drefn draddodiadol. Ond, drwy ddefnyddio technoleg a chydweithio hapus â'r Henaduriaeth, credwn fod ysbryd y rheolau wedi cael ei barchu.

Dyna'r dechrau newydd, beth felly sy'n dod i ben? Mae anerchiad y Gweinidog yn adroddiad blynyddol Bethel, Heathfield Road, wedi dod o law'r Parch D Ben Rees am hanner cant a dwy o weithiau. Mae Dr Ben wedi bod yn gweinidogaethu yn



Lerpwl am dros hanner canrif, yn ddi-baid ac yn ddiplino ym mhob ystyr. Petaem yn gallu crynhoi'r holl anerchiadau o'i waith ar hyd y blynyddoedd, fe fyddai hynny'n destun stori ddifyr dros ben, a'r thema gyson fyddai ei ddiolchgarwch i bawb oedd wedi cyfrannu at gynnal achos Crist yn Eglwys Bethel ac, wrth gwrs, Capel Heathfield Road fel yr oedd cyn hynny. Ond nid dyma'r diwedd: y mae Dr Ben Rees yma gyda ni o hyd, ac fe allwn edrych ymlaen at ei gyfraniad i ni fel eglwys a chymdeithas eto yn y dyfodol, ond gyda chyfrifoldeb ychydig yn wahanol.

Yn Nosbarth Manceinion hefyd mae cyfnod yn darford ac un newydd yn agor o'n blaen. Ar ôl i'r Parch W R Williams ddychwelyd i Gymru, ein plaser oedd cael croesawu'r Barchedig Eleri Edwards i weinidogaethu yma ym Manceinion, gan gymryd gofal dros gapeli Altrincham, Oaker Avenue a Warrington. Wedi treulio blynyddoedd lawer yn y maes cenhadol ym Madagascar, yr oedd Eleri wedi bod yn gaplan yn Lerpwl ac yn awyddus i fod yn weinidog ar ofalaeth. Cafwyd y Cyfarfod Sefydlu yn Hydref 2004 a bu Eleri yn fugail ffyddlon a charedig arnom hyd at ei hymddeoliad yn 2009 fel gweinidog llawn amser. Yn ffodus i ni, parhaodd i fod yn weinidog gwirfoddol o 2010 ymlaen ac, fel aelodau, gwerthfawrogwn ei chyfraniad inni'n fawr.

Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt ar eu hymddeoliad 'go iawn' y tro hwn. A chroeso mawr i'r gweinidog newydd sydd yn cymryd drosodd – pob bendith iddo yn y gwaith.


Swyddogion Gofalaeth Gororau'r Gogledd

Rhifyn Ebrill 2021 o'r Traethodydd

Mae rhifyn Ebrill o'r *Traethodydd* yn cynnwys llawer o bethau a fydd o ddiddordeb neilltuol i'n darllenwyr. Yn yr ysgrif gyntaf o ddwy, mae Pryderi Llwyd Jones yn olrhain cyfraniad George Herbert, y bardd o'r Gororau, a gafodd fywyd lliwgar yn y brifysgol ac yn y llys cyn darganfod ei wir alwedigaeth fel offeiriad cefn gwlad mewn plwyf disylw a bardd godidog y byddwn yn dal i droi ato am ysbrydiaeth heddiw. Mae cymhlethdodau'r stori yn adlewyrchu cymhlethdodau personoliaeth sydd, fodd bynnag, yn swynol ryfeddol. Gwych o beth yw cael darllen amdano a'r hyn sydd ganddo i'w ddweud wrth ein cenhedlaeth rwyfus ni. Bydd ail ran yr ymdriniaeth gyfoethog hon yn ymddangos yn rhifyn Gorffennaf.

Arhosir ym myd llên y cyfnod modern cynnar gydag ysgrif Gerald Morgan ar Ellis Wynne o'r Lasynys. Os yw'n adnabyddus fel awdur y clasur *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg*, mae'n llai hysbys am ei fersiwn o'r Llyfr Gweddi Gyffredin, a dyna thema'r ysgrif ddifyr hon.

O droi at lenor amlwg arall, ond o'r ddeunawfed ganrif y tro hwn, gwyddom am Williams Pantycelyn fel y mwyaf o'n hemynwyr, ond yn yr ysgrif 'Pantycelyn a Rhyfel Annibyniaeth America', mae A. Cynfael Lake yn cynnig mai ef, y



Pêrganiedydd, oedd awdur cerdd dra theyrngarol yn erbyn y gwrthryfelwyr a fynnai weld America yn wlad rydd. Mae'r ymdriniaeth yn cyfuno beirniadaeth lenyddol â gwaith ditectif hanesyddol, gan gynnig gwedd newydd ar waddol y llenor o Bantycelyn.

Mewn ysgrif hynod afaelgar, mae Goronwy Wynne, y naturiaethwr o Sir Fflint, yn olrhain rhawd y gwyddonydd Alfred Russel Wallace, cyfoeswr Charles Darwin ac un o sylfaenwyr theori esblygiad, gan oleuo'i gysylltiadau Cymreig a Chymraeg. Syndod oedd darllen pa mor gefnogol ydoedd i'n hiaith a'n diwylliant, a pha mor gyfarwydd

ydoedd â'n gwlad. Un a fu'n byw ei fywyd ar ffin gwahanol ddisgyblaethau ydoedd, ac yng ngoleuni hynny, diddorol yw darllen ysgrif Enid Morgan yn sôn am eraill sydd wedi byw eu bywydau ar y ffin rhwng rhychwant o argyhoeddiadau gwahanol.

Yn ogystal â'r uchod, ceir amrywiaeth eang o adolygiadau. Mae A. Cynfael Lake yn rhoi sylw manwl i gyfrol swmpus Gerwyn Williams, *Cynan: Drama Bywyd Albert Evans Jones*; Goronwy Wyn Owen yn trafod gwaith y diweddar brifardd Gwynfor ab Ifor; Hywel J. Davies yn trin astudiaeth Darryl Leeworthy ar un o ffigurau llenyddol pwysig cymoedd Morgannwg, sef Elaine Morgan; Dewi Alter yn tafoli cyfrol Huw Williams, *Ysbryd Morgan: Adferiad y Meddwl Cymreig*, a Dafydd Ifans yn cymeradwyo cyfrol Richard Huws, *Pobl y Topie*, sef ardal y Bont-goch yng ngogledd Ceredigion. Rhwng popeth, felly, dyma wledd ar ein cyfer.

Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Twitter ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Fforddy Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams (alice@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Enwebiadau a threfniadau cyflwyno Medalau Gee 2021: de a gogledd

Yn anffodus, oherwydd sefyllfa'r COVID-19 ni fu'n bosib cyflwyno Medalau Gee yn ystod 2020. Er i nifer o eglwysi gysylltu â ni ddechrau'r flwyddyn, daeth yn amlwg adeg cyflwyno'r enwebiadau na fyddai cynnal cyfarfod cyhoeddus yn bosib, a phenderfynwyd gohirio enwebiadau am flwyddyn.

Yn dilyn cyfarfod o Ymddiriedolwyr Cyngor yr Ysgolion Sul yn ddiweddar cafwyd trafodaeth ynghylch trefniadau 2021. Cytunwyd mai annoeth fyddai ceisio trefnu cyfarfod cyhoeddus er mwyn dod â phobl oedrannus o bob rhan o Gymru ynghyd i un lleoliad, a bod angen i ni newid ein trefniadau eto ar gyfer eleni.

Felly cytunwyd ein bod yn gwahodd enwebiadau, a bydd y sawl fydd yn derbyn medalau eleni yn eu derbyn yn eu heglwys leol. Gall y rhain un ai gael eu cyflwyno gan y gweinidog, neu gan aelod o bwyllgor Cyngor yr Ysgolion Sul a all fod o fewn cyrraedd i'r capel hwnnw. Yn hytrach na'r ddau gyfarfod blynyddol arferol, a oedd i fod eleni yn Llanuwchllyn a Rhydaman, cytunwyd i gyflwyno'r medalau yn lleol, a hynny yn ystod mis Medi ar noson neu Sul a fyddai'n gyfleus. Mae ffurflen enwebu ar gael [yma](#).

Mae Cyngor yr Ysgolion Sul hefyd yn cyflwyno medalau er anrhydedd, a'r llynedd enwebwyd y Parchedigion Catrin ac Ifan Roberts a Mr Nigel Davies i dderbyn y medalau hynny. Gan na fu modd eu cyflwyno'r llynedd, fe fyddant yn cael eu cyflwyno eleni yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, a gynhelir yn rhithiol dros Zoom yn ystod mis Mehefin.

Rydym ar hyn o bryd yn croesawu enwebiadau am fedalau o blith yr eglwysi yng Nghymru i'w cyflwyno eleni, gan gofio bod yn rhaid i bob ymgeisydd a enwebir gan ei eglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r ysgol Sul (mae ein diffiniad o ysgol

Cyfarfod Gwobrwyo Ffyddloniaid yr Ysgol Sul



*“Am yr ysgol rad Sabothol
Clod Clod i Dduw”*

Sul hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd / seiadau trafod canol wythnos). Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried ar gyfer eleni fod wedi ein cyrraedd ni erbyn **30 Mehefin** fan hwyraf.

Mae cyflwyno medalau fel hyn yn ffordd anrhydeddus o ddiolch i athrawon ysgol Sul dosbarthiadau plant ac ieuenticid am oes o wasanaeth, ac o gydnabod ffyddlondeb aelodau dosbarth yr oedolion yn ogystal. Tybed oes 'na rywrai yn eich ysgolion Sul chi sy'n disgyn i'r categorïau hyn? Os oes, yna ewch ati i enwebu!

Diwedd yr argyfwng – ymateb i argyfwng

'Pam fod capeli ag obsesiwn am gynnal adeiladau, a gwario ar gynnal strwythurau pan mae yna gymaint o angen o'n cwmpas?' meddai beirniaid a chyfeillion i'r efengyl o bryd i'w gilydd.

'Dydyn ni ddim isio mynd 'nôl i gynnal adeiladau anghynaliadwy neu ddiogelu system oedd yn cadw blychau sy'n wag am y rhan fwyaf o'r wythnos ar agor, dim ond er mwyn iddynt barhau i fod yn wag am y rhan fwyaf o'r wythnos ymlaen i'r dyfodol,' meddai sawl arweinydd.

Ond be wnawn ni â'r blychau?



Ac wrth i ni geisio canfod ffordd ymlaen i'n capeli, gall ein hymateb fod yn sobor o ddiddychymyg. Yn 2019 lanswyd, gan Archesgob Caergaint, Gomisiwn ar Dai, yr Eglwys a Chymunedau. Ffurfiwyd partneriaeth gyda Chyfiawnder Tai (Housing Justice) er mwyn cynorthwyo eglwysi i ddysgu gweithredu ac ymateb i ofnyion eu cymunedau am dai fforddiadwy.

Mae gan *Word on the Streets* wefan yn llawn o syniadau sy'n cynnig esiamplau o ymdrechion a gweledigaeth eglwysi gwahanol, yn ogystal â chymorth am sut i weithredu. https://www.wordonthestreets.net/Articles/602176/Resources_to_help.aspx?s=03

Ac ar dudalennau Cymraeg *Cyfiawnder Cartrefi* ceir galwad a syniadau am sut y medrwn ni fod yn rhan o fudiad sydd am drechu digartrefedd drwy gynnig 'ymatebion lleol, llawr gwlad i ddigartrefedd ac angen tai'. Ewch i <https://housingjustice.org.uk/cymru>

RWJ

Sylw o'r Seidin

'Dilynwch y goleuni sydd gennych ...'

Yn nhymor y Pasg dymunaf rannu profiad dau bererindod gwahanol gyda chi. Bu i'r ddau ddiwydd ar benwythnos y Pasg.

Digwyddodd y cyntaf pan oeddwn newydd gychwyn arwain y gwaith yng Ngholeg y Bala. Yn gymdeithion imi ar y daith yr oedd y Parch D H Owen, a'r ddwy foneddiges Mrs Megan Williams, Bodffordd, a Mrs Gweneth Owen, Glantraeth. Mynd am Bafaria yr oeddem i drafod trefniadau teithio cyfnewid Operation Friendship. Yn digwydd bod, cefais fy lletya gan ŵr o'r enw Helmut Steiner a'i deulu, ac ar y prynhawn Sadwrn fe fynegodd ei ddymuniaid i fynd ar daith i ardal Flossenber, nid nepell o'r ffin rhwng yr Almaen a Tsiecoslofacia. Wyddwn i ddim mai mynd â fi i weld gweryll milwrol ydoedd, ac y byddwn yn ymweld â'r man lle carcharwyd Dietrich Bonhoeffer. Yr oedd am imi ymweld ag arddangosfa Dietrich Bonhoeffer a'r man lle y'i dienyddiwyd ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd.

Clywswn yr enw'n cael ei ddyfynnu cyn hyn ar sawl pregeth gartref, ond roedd ymweld â'r safle yn afreal ac yn brofiad anesmwyth iawn. Wrth gerdded i mewn drwy'r rhodfa goediog roedd yna flodau i'w gweld yn eu gogoniant a chôr y goedwig yn trydar eu croeso inni yno. Ac yna fe'm sbreiddiwyd wrth ymweld â'r arddangosfa, ac yna'r ystafell amlosgi lle gorchuddiwyd y peiriant gyda baneri'n cynrychioli'r holl garcharorion rhyfel o holl wledydd y byd a gollodd eu bywydau yno. Pan ofynnais pam yr aethom yno ar Ŵyl y Pasg, dywedwyd wrthyf am bwysigrwydd cydnabod erchyllterau'r gorffennol a gwerthfawrogi'r rhai aberthodd eu bywyd wrth geisio dod â'r cyfan i ben.

Wrth aros ennyd mewn distawrwydd ar dop y grisiau lle y'i dienyddiwyd ef, daeth geiriau Bonhoeffer i'r cof: 'You must never doubt that I am travelling with gratitude and cheerfulness along the road where I'm being led. My past life is brim full of God's goodness, and my sins are covered by the forgiving love of Christ.' Oedd, roedd hwn yn bererindod annisgwyl iawn sydd wedi aros gyda mi byth er hynny.



Llun: Roehrenee, CC BY-SA 3.0 <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/> via Wikimedia Commons

Bu'r ail daith ei hun yn her wahanol: taith i Ynys Iona a gyda mi'r tro hwn yr oedd Huw Powell Davies, Jill Hailey Harries a Non Llwyd. Dyma fan gwireddu breuddwyd fawr George McCleod o ddiogelu Abaty Iona drwy adfer y safle ac ailsefydlu cymuned Gristnogol yno fyddai'n fan pererindota ac yn seintwar ysbrydol i bererinion ar draws y byd.

Wedi glanio, cawsom ein tywys draw i'r eglwys. Yno fe'n gwahoddwyd i orffwys ger y fynedfa lle roedd yna gylch o ganhwyllau wedi eu gosod ar y llawr. Yng nghanol y cylch roedd nifer o symbolau yn cynrychioli'r Gwynfydau. Wrth wrando ar ddarlleniad o'r Gwynfydau, codwyd pob symbol yn ei dro a gwahoddwyd ni i ymateb trwy ddilyn pa symbol bynnag oedd yn ein cyffwrdd ar y pryd, draw at fwrdd y Cymun. Yna, torrwyd y bara ac fe rannwyd y gwin rhyngom gan selio cwlwm o gariad a chyfeillgarwch rhyngom ar ddechrau'r penwythnos fel pobl Dduw.

Y diwrnod canlynol fe'n tywyswyd i Fae Sant Columba, lle glaniodd Columba wedi iddo ffoi yno o Iwerddon. Gofynnwyd i bob un ohonom godi carreg oddi ar y traeth, i gynrychioli rhywbeth y byddai'n dda inni symud ymlaen oddi wrtho. Wedi cyfnod o dawelwch, dywedwyd wrthym am hyrddio'r garreg i eigion y môr. Wrth deimlo'r ysbryd yn cael ei ysgafnhau, clywsom y geiriau hyn o eiddo George Macleod yn cael eu hadrodd, 'Dilynwch y goleuni sydd gennych, a gweddiwch am fwy o oleuni!'

Wedi'r Pasg ac ar drothwy ein rhyddhau o glo mawr Cofid 19, gadewch i ninnau weddio:

Tyrd atom ni, O Grêwr pob goleuni,
tro di ein nos yn ddydd;
pâr inni weld holl lwybrau'r daith yn
gloywi
dan lewyrch gras a ffydd.

Jim Clarke, Llanfair PG

✉ Annwyl Olygydd,

Newydd ddarllen yr ydwyf y sylwadau ynglŷn â'r adnod 'Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu' a ymddangosodd yn *Cenn@d* yr wythnos hon [17 Mawrth].

Dim ond mewn un pulpud rwyf innau wedi gweld yr adnod hon, a hynny yma yn Nyffryn clodwiw Clwyd, sef yng nghapel y Rhewl, ger Rhuthun.

Dydw i ddim wedi pregethu yno ers bron i ddeng mlynedd ar hugain, ond cymeraf ei bod yn parhau i fod yn ei lle!

Diolch hefyd am y *Cenn@d* – mae'r cyfraniadau arferol ynddo a rhai newydd hefyd, ac mae hynny yn plesio.

Yn gywir,
Iorwerth P Jones
(Rhuthun)

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

Y PASG

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Rhif 40 – Cleopas a'i gyfaill

Gweddi

Diolch i ti, Arglwydd, am bob cyfle a gawn i dreulio amser yn dy gwmi. Yn ein darlleniad heddiw, cofiwn am brofiad dau yn benodol, na wyddom ddim mwy nag enw un ohonynt, ond a gafodd oedfa ben y mynydd yn dy gwmi di. Cymorth ni heddiw i gofio gwefr y munudau cysegredig hynny o ddarganfod pwy oedd – ac yw – Iesu, a boed i ni gael yr awydd i rannu'r profiad ag eraill. Amen.

Darllen: Luc 24:13–35

Cyflwyniad

Bydd hanes Iesu yn cydgerdded â'r ddau pruddglwyfus yn dychwelyd i'w cartref yn Emaus yn ddigon cyfarwydd inni efallai, ond prin fod unrhyw wybodaeth am y ddau. Enwir un yn Cleopas, sy'n dalfyriad o'r enw Cleopatros, ond nid yw Luc yn gwybod dim mwy na hynny amdano. Pentref bychan oedd Emaus, daith gerdded fer i'r gogledd-orllewin o Jerwsalem. Roedd yn rhyfedd fod Luc wedi clywed cofnodion o'r sgwrsio ond heb fedru cynnig mwy o wybodaeth am y ddeuddyn. Efallai nad eu henwau oedd yn bwysig, ond eu bod yn dystion cynnar i gyfarfod gyda Iesu'r Atgyfodiad. Rhaid bod y disgyblion cynnar wedi nodi'r brawddegau o dristwch a'u gwrthgyferbynnu â'r dyfyniadau o ryfeddod a llawenydd.

Myfyrdod

Bydd llawer yng nghynulleidfaoedd ein

heglwysy sy'n dawedog ac yn fodlon bod yn bobl y cefndir. Tra bydd enwau'r swyddogion eglwysig yn hysbys, bydd y lliaws yn ymgolli yn y dorf. Eto, cafodd yr Eglwys Fore fodd o werthfawrogi fod gan y dywedwst rywbeth arbennig ac unigryw i'w rannu, ac wrth i Luc gofnodi'r hanes hwn, bydd yn annog y rhai tawel, diennw i rannu eu profiad a dweud eu stori. Mwy na thebyg fod Luc wedi clywed am brofiadau llawer o'r tystion cynnar, nad ydynt wedi eu cofnodi o gwbl, ond gwelodd fod gan y bobl hyn rywbeth canolog a hanfodol i'w rannu.

Nodwn hefyd y cymal byr 'ac ar unwaith' (adn 33): roedd eu llawenydd yn eu gyrru ymlaen i ddychwelyd i Jerwsalem, at gwmi'r disgyblion i rannu eu profiad. Dyma oedd y wefr ryfeddol a'r 'gweld' na fyddai'n diflannu gyda chen amser. Bydd treigl y blynyddoedd yn peri ein bod yn anghofio profiadau'r gorffennol, ond roedd Luc yn awyddus i galonogi'r sawl a fyddai'n darllen ei Efengyl i gofio'r modd y rhannodd Iesu weld dyfnach y sawl a oedd yn ddall. 'Agorwyd eu llygaid hwy, ac adnabuasant ef' (adn 31), a dyna graidd tystiolaeth lawen yr eglwys:

Cwyd llawenydd fy mron, megis ton
ar ôl ton,
daeth Iesu i'm calon i fyw.
(cyf Nantlais; *Caneuon Ffydd*, 797)

Yn un o'i gerddi, dywed R S Thomas ei fod yn 'neb', a byddwn oll yn anghofiedig ym mhen treigl y canrifoedd. Ond efallai bydd eintystiolaeth ni wedi helpu rhywun

arall i synhwyro presenoldeb Iesu yn eu bywyd. Gallwn rannu ein llawenydd yn frwdfrydig a disgrifio'r gweld amgenach.

Gweddi

Drugarog Dduw, diolch am ganiatáu i ni weld yr anweledig ac i werthfawrogi'r cyfle i rannu'r profiadau cadarnhaol hynny ag eraill. Gwyddom nad ni sy'n bwysig ond Iesu, ond diolch byth ein bod ni yn bwysig iddo. Trysorwn y ffaith i ti weld yn dda i'n caru a'n cynnwys yn dy drefn ragluniaethol di. Boed i eraill, drwom ni, adnabod ac ymateb i'th gariad di. Amen.

Trafod ac ymateb

- Beth yw ymateb cyntaf Iesu i ddigalondid y ddau yma ar y ffordd i Emaus? Pa mor barod ydym ni i roi clust i'r rhai sy'n ddigalon?
- Fe gynhaliodd Iesu astudiaeth o'r Hen Destament 'gan ddehongli iddynt yr holl bethau a ysgrifennwyd amdano ef ei hun yn yr holl Ysgrhythurau' (adn 27). A fuom ni mewn astudiaeth Feiblaidd yn sylwi ar yr holl ragfynegi sydd am Iesu yn yr Hen Destament?
- A gawsoch chi brofiad fel y ddau yma lle roedd 'ein calonau ar dân ynom' (adn 32) wrth i'r Ysgrhythur gael ei hagog inni?
- 'Mi roeddwn gynt yn ddall, ond nawr rwy'n gweld' yw profiad John Newton yn ei emyn adnabyddus 'Amazing Grace'. A oes rhywun a gyfrifwch yn ddall, heb adnabod yr Arglwydd Iesu, y gallwch chi weddio drostynt ac am gyfle i rannu amdano efo nhw?

S4C

Nos Sul, 11 Ebrill, am 7:00yh *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

Yr wythnos hon bydd Nia yn Sir Drefaldwyn yn clywed sut mae geiriau'r bardd a'r emynydd Ann Griffiths yn dal i ysbrydoli'r cerddor cyfoes Siân James. A chawn hefyd fwynhau gwledd o berfformiadau ac emynau Ann ei hun.
(Ailddarlledir y Sul canlynol am 11:30yb)

Diolchwn am y ddarpariaeth o wasanaethau a gafwyd ar y teledu dros y cyfnod clo diwethaf. Daeth y trefniant wythnosol i ben, gydag addewid o oedfaon achlysurol i ddod. Os bu ichi werthfawrogi'r ddarpariaeth, yna beth am anfon gair i fynegi hynny at unrhyw un yn swyddfeydd S4C neu ar-lein ar eu gwefan: www.s4c.cymru/cy/cysylltu--ni, neu ar e-bost: gwifren@s4c.cymru

BBC radio cymru

Sul, 11 Ebrill

Caniadaeth y Cysegr am 7:30yb a 4:30yp
Elen Ifan yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfaoedd Pontarddulais a'r Hendy

Radio Cymru am 12.00yp – Ramadan

Ar drothwy Gŵyl Foslemaidd Ramadan mae Laura Jones, sy'n dilyn Islam, yn sgwrsio gyda John Roberts am ei ffydd.

Prif Gaplan Heddlu Dyfed–Powys, y Parchedig Tom Evans, yn ymddeol ar ôl ‘naw mlynedd orau’ ei fywyd gwaith

Mae'r Parchedig Tom Evans (Tom i swyddogion a staff) yn dipyn o arwr yn Heddlu Dyfed–Powys. Mae wedi rhoi ei amser o'i wirfodd a gydag angerdd i wasanaethu fel prif gaplan yr heddlu dros y naw mlynedd diwethaf. Cefnogodd swyddogion a staff yn ystod adegau gwaethaf eu bywydau ac o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol, yn ogystal â llawenhau a dathlu gyda nhw yn ystod yr amserau gorau.

Gellir rhoi'r clod iddo am sicrhau bod y gaplaniaeth aml-ffydd nawr yn rhan annatod o'r sefydliad. Mae'n arwain tîm o 19 caplan nodedig, gan gynnwys imâm, sy'n gwirfoddoli ledled yr ardal heddlu – ac mae'n barod i ddweud mai cydymdrech ar ran pawb ohonynt sydd wedi sicrhau eu llwyddiant cyson.

Wrth sôn am ei benderfyniad i ymddeol, meddai: 'O ystyried popeth, rwy'n credu bod yr amser yn briodol i adael, er mor drist ydyf i wneud hynny. Rwy'n credu ei fod yn synnwyr cyffredin yn fy oed i. Ymddeolais o gyflogaeth lawn amser yn 2008, ar ôl gyrfa ddiddorol a gwerth chweil. Roeddwn yn y weinidogaeth yn gyntaf, yna symudais ymlaen at faterion datblygu'r byd gyda Chymorth Cristnogol. Yna, es ymlaen i'r cyfryngau, gan ddod yn gynhyrchydd radio ac yn gyflwynydd rhaglenni oedd yn canolbwyntio ar grefydd. Yn olaf, fe fues i'n gweithio fel darlithydd mewn prifysgol. Ond mae gwirfoddoli fel caplan heddlu wedi bod yn brofiad arbennig, un na fyddwn wedi ei golli am y byd. Bu'n fraint o'r mwyaf, a medraf ddweud â'm llaw ar fy nghalon mai'r naw mlynedd diwethaf fu rhai gorau fy mywyd gwaith. Bydd y gyfeillach a'r cyfeillgarwch a ganfûm pan ymunais â'r teulu cymunedol hwnnw, sef Heddlu Dyfed–Powys, yn aros gyda mi am byth; rwyf wedi cwrdd â phobl arbennig iawn sydd wedi newid fy mywyd.'

Mae Tom wedi mwynhau natur amrywiol y rôl, oedd yn ehangach o lawer na



chefnogi staff yn eu bywydau gwaith dyddiol yn unig. Gofynnwyd iddo gynnal gwasanaethau angladdol ar gyfer staff a'u hanwyliaid; mae wedi priodi ambell bâr, bendithio modrwyau priodas, ymweld â staff yn yr ysbyty, cynnal ymweliadau cartref, eistedd a rhoi cysur i bobl oedd yn ddifrifol wael, a sawl peth arall. Bu yng nghanol uchafbwyntiau ac isafbwyntiau pobl – o ran eu gwaith neu eu bywydau personol. Mae aelodau staff sydd wedi ymddeol hefyd wedi estyn allan ato.

Mae hefyd wedi cefnogi swyddogion a staff yn ystod rhai o'r achosion mwyaf trasig y bu'n rhaid i'r heddlu ymdrin â nhw: herwgipio a llofruddiaeth April Jones (arhosodd yn ardal Machynlleth am bythefnos bryd hynny) a'r tân mewn ffermdy yn Llangamarch lle y collodd tad a'i bump o blant eu bywydau. O ganlyniad i'w waith, mae wedi derbyn Cymeradwyaeth y Prif Gwnstabl a Thystysgrif o Werthfawrogiad. Hefyd, derbyniodd wobwr Gwirfoddolwr y Flwyddyn yng ngwobrau'r heddlu yn 2017. Er ei fod yn teimlo'n freintiedig ac yn falch iawn o dderbyn y gwobrau hyn, dywed yn glir mai'r bobl y mae wedi'u helpu yn ystod eu tristwch a'u heriau sy'n golygu fwyaf iddo, ac mae gwybod ei fod wedi gwneud gwahaniaeth iddynt yn ddigon o gydnabyddiaeth.

Ychwanegodd Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd: 'Bu

Tom Evans yn wirfoddolwr eithriadol ar gyfer yr Heddlu yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Fel caplan, mae wedi bod yno inni bob amser drwy amserau heriol ac anodd, ddydd a nos. Mae wedi darparu cymorth a gofal bugeiliol neilltuol i swyddogion a staff a'r gymuned blismona ehangach yn ystod adegau anodd a gofidus.

'Byddaf innau a staff fy swyddfa, a'r teulu plismona estynedig, yn gweld ei eisiau'n fawr. Dymunaf ymddeoliad hir, iach a hapus iddo.'

Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod, gorfennodd Tom drwy ddweud:

“ Mae swyddogion a staff yr heddlu'n grŵp o bobl arbennig iawn. Maen nhw'n profi digwyddiadau trawmatig sy'n newid bywydau'n rheolaidd. Mae rhai pobl yn cael yr argraff eu bod yn galed fel glo carreg. Ond rwyf bob amser yn dweud wrth bobl am edrych tu hwnt i'r lifrai. Tu fewn i'r lifrai, mae bod dynol, llawn emosiynau, fel chi neu fi. Bu adegau pan mae swyddogion wedi dweud wrthyf y byddent wedi gadael y gwasanaeth heddlu heblaw am y gefnogaeth a dderbynion nhw gan y gaplaniaeth. A'r bobl eithriadol hynny sydd wedi dod o hyd i'r cryfder a'r ymrwymiad i barhau i wasanaethu eu cymunedau sydd wedi gwneud fy ngwaith i fel caplan yn werth chweil.”

Dyma gyfarfod hyfryd iawn Fel yr anfonodd y Tad fi ...

Darllen: Salm 133

Gweddi

Tyrd atom, Arglwydd Iesu, i blith dy bobl, fel 'cynt y daethost ar dy newydd wedd', i'n comisiynu o'r newydd ac i orchymyn i'th fendith orffwyso arnom. Amen.

Emyn 371: 'Er chwilio'r holl fyd'

Darllen: Ioan 20:19–31 – Y Dydd Cyntaf

Mae Ioan, fel Marc, yn narlleniad yr wythnos diwethaf, am i ni sylwi mai ar 'ddydd cyntaf yr wythnos' (adn 1, 19) y digwyddodd hyn oll.

Ar 'ddydd cyntaf yr wythnos', y diwrnod cyntaf un erioed, y dechreuodd yr Arglwydd ar ei waith o greu'r byd, a'i droi o fod yn 'afluniaiidd a gwag' i fod yn baradwys a adlewyrchai ei harddwch a'i ogoniant a'i allu (Genesis 1:1).

Aeth y gwagedd at fedd Iesu, 'tra oedd hi eto'n dywyll'. Roedd gwawr y greadigaeth newydd ar dorri. Ond nid oedd Mair, na'r gwagedd eraill, na'r disgyblion wedi ei gweld na'i hadnabod eto.

Cawsant eu meddiannu gan ofn i ddechrau am fod y maen wedi ei symud a'r bedd yn wag: 'nid oeddent eto wedi deall yr hyn a ddywed yr Ysgrythur, fod yn rhaid iddo [Iesu] atgyfodi oddi wrth y meirw' (adn 10). Nid oeddent eto wedi deall bod byd newydd yn cael ei greu drwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist.

Y nos a ni

Oedd, roedd hi'n ddydd cyntaf yr wythnos, ond roedd y disgyblion yn parhau i fyw 'yn y nos' (adn 19), heb fedru deall nac amgyffred yr hyn oedd eisoes wedi digwydd. Roeddynt yn cuddio'r tu ôl i ddrysau caeedig, yn llawn o ofnau a heb syniad yn y byd beth i'w wneud nesaf.

Tybed nad ydym ni fel unigolion ac fel cynulleidfaoedd mewn cyflwr tebyg heddiw – yn ofnus, heb gyfeiriad, a heb wybod beth i'w wneud nesaf?

Am nad ydym wedi deall arwyddocâd yr atgyfodiad, cuddiwn y tu ôl i ddrysau ein hofnau a'n hanghrediniaeth.

A phwy ohonom, go iawn, fel unigolion, fel capeli unigol, fel enwadau, sy'n cymryd gallu'r gobaith newydd, gallu'r atgyfodiad, argyhoeddiad am fyd newydd yr Arglwydd, fel sail ein gobaith a'n penderfyniadau, neu fel sail obeithiol unrhyw raglen waith ar gyfer ein henwadau a'n capeli.

Tangnefedd

Ni allai tywyllwch eu hofnau, eu hanghrediniaeth, na drysau cloëdig, atal dyfodiad Iesu at ei ddisgyblion na rhwystro grym ei gyfarchiad grasol: 'tangnefedd i chi, shalom'. Golyga 'tangnefedd' fwy nag absenoldeb terfysg, neu ddiffyg helbul na thrafferthion. Golyga bod mewn perthynas gyflawn â Duw, â phobl, â'r greadigaeth. Golyga 'heddwch' ffyniant a lles pennaf unigolion, cymdeithas a'r greadigaeth oll.

Pan ddaw Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd ac a atgyfododd, i 'sefyll yn y canol' daw â'i dangnefedd gydag ef. Mor aml ar hyd canrifoedd cred mae'r eglwys wedi gosod strwythur, neu ddefod, neu rym a dylanwad neu ormes yn y canol. Pan nad yw Ef yn y canol, collir heddwch a ffyniant a lles. Ond pan ddaw Ef i'r canol daw â thangnefedd, llawenydd, gobaith a bywyd (adn 20).

Nid yr un peth yw tangnefedd â thrwmgwsg. Anodd yw cysgu pan fo'r wawr wedi torri a gwaith i'w wneud. Torrodd gwawrddydd gobaith newydd yr atgyfodiad. Tangnefedd yw canlyniad symud y tywyllwch. Tangnefedd yw'r cyfeiriad, y grym a'r nod.

Tangnefedd a galwad

'Yr wyf fi hefyd yn eich anfon chi' yw her gyntaf Iesu i'w bobl ym mhob oes. Bob dydd, ym mhob cylch, ym mhob man, ym mhob gorchwyl, saif y Cristion yn y byd yn gynrychiolydd bywyd a gwerthoedd Iesu Grist. Y mae i'r Cristion gwannaf awdurdod – mae'n byw dan, a gydag, awdurdod Iesu Grist. Mae'n byw mewn gostyngeddrwydd am mai Crist yw'r Arglwydd.

'Fel y mae'r Tad wedi fy anfon i' – nid yw Iesu'n gosod cynllun strategol ar gyfer cenhadaeth na pharhad ei eglwys. Mae ei alwad yn gofyn am fwy na dim ond cytuno neu ddilyn canllawiau allanol. Daeth Iesu Grist, Gair Duw, yn gnawd a phreswyllo yn ein plith.

Daearwyd gwerthoedd gras a gwirionedd. Ymgawdolodd y Duwdod. Cerddodd ar y ddaear, yn ein byd ni. Cerddodd yng nghanol harddwch a thynnerwch a phrydferthwch ei greadigaeth. Rhodiodd a dioddefodd mewn byd sy'n llawn o gasineb a rhyfeloedd a thrais.

Daeth y gair, 'Duw', yn gnawd.

Nid rhaglen waith na phwnc trafod a gawsom gan Iesu.

'Fel yr anfonodd' y Tad ei Fab, fe'n hanfonir ninnau i ddaearu 'urddas', 'cyfiawnder',

'trugaredd', 'maddeuant', 'gofal am y greadigaeth' a 'charu', a 'chyhoeddi' bod maddeuant i droseddwy'r fel ni (adn 23).

Cawsom Waredwr i greu ynddo a phatrwm i'w efelychu a'i ddaearu (Philipiadaid 2:1–11).

A chawsom ein nerthu i'r her.

'Anadlodd arnynt', fel yr anadlwyd ar yr esgryn sychion gynt (Eseciel 37).

'Anadlodd arnynt', fel yr anadlwyd bywyd i ffroenau'r ddynolryw adeg y creu.

Ac fel y crëwyd stiwardiaid o greadigaeth Duw yn Genesis, crëwyd corff newydd, Eglwys Iesu Grist, a'r Ysbryd Glân yn fywyd iddi, i fod yn stiwardiaid i'w ras heddiw.

'Anadlodd arnynt' a dweud: 'Derbyniwch yr Ysbryd Glân.' Fel yr oedd Ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd, felly anedlir drwy'r eglwys, drwy alwad Iesu Grist, fywyd newydd i'r byd.

Nid ataliwyd mo'r rhodd na'r alwad, ac ni ellir atal mo'r grym newydd a dywalltwyd arnom.

Ymaith felly â'n hofnau a'n drysau caeedig. Ymaith â'r hunanesgusodi sy'n dweud, 'Dy'n ni ddim yn gwybod beth i'w wneud.'

Fe wyddom beth yw'r alwad. Anadlwyd ei Ysbryd Glân arnom. Ni phallodd yr addeiwion na'r dasg a roddodd Iesu i'w eglwys.

A gredwn ni hyn – go iawn?

Gweddi

Dduw Hollalluog, yr hwn a ddatguddiaist allu dy ras a'th brynedigaeth yn Iesu Grist, caniatâ i ninnau dy adnabod heddiw y tu ôl i ddrysau caeedig ein hofnau a'n hanghrediniaeth. Ac wrth i ninnau dystio bod bore newydd wedi gwawrio drwy ei ddyfodiad atom, trwy ei groes a'i atgyfodiad, edrychwn ymlaen at weld y dydd newydd yn gwawrio'n derfynol pan fydd angau a'r bedd, drygioni a llygredd wedi eu trechu am byth yng ngallu dy atgyfodiad. Llanwa ni â'r gobaith hwnnw. Arglwydd Iesu, drwy dy Ysbryd Glân, cadwa ni'n ffyddlon i'th alwad, yn ymwybodol o'th bresenoldeb, yn ostyngedig ein cerddediad, yn hyderus ar ein taith yn y byd gyda thi. Amen.

Emyn 385: 'Goleuni'r byd yw Crist'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@cennad.cymru

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)